# 3ydd Cyfarfod y Grŵp Ecosystem Coetiroedd

## 4 Mai 2010 Ystafell William Davies, Ibers

Yn bresennol

Chris Tucker – Cadeirydd
Celia Thomas
Chris Smith
Jim Latham
Nigel Ajax Lewis
Sarah Mellor
Lynda Makepeace
Richard Jones
Jane Holloway – Cofnodion

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

David Jenkins
Emma Guy
Reg Thorpe
Jerry Langford

Sian Whitehead wedi ymddiswyddo

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Pwyntiau Gweithredu
Rhestr o Goetiroedd Hynafol – tendr yn dod i ben yr wythnos nesaf – un contractwr

- Pwynt Gweithredu - Chris Tucker – Cysylltu â Ben Ditchburn /Alan Brewer ynglŷn â phrosiect y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, a'u gwahodd i'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Lynda Makepeace – Contract Tir Gofal wedi'i anfon – diweddariad ar gael cyn bo hir

Mae Emma Guy wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar ein rhan.

- Pwynt Gweithredu - Chris Tucker – Heb gysylltu â Liz Howe eto ynglŷn â newid targedau yn ymwneud â ffigurau newydd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – Chris Tucker i siarad gyda Keith Jones ynglŷn â thargedau/faint o goetir – a yw'n dal yn 14%?

- Pwynt Gweithredu – Chris Tucker i ofyn i Emma/Keith ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod y Rhestr o Goetiroedd Hynafol a Dangosyddion Coetiroedd i Gymru – Wedi gwahodd y ddau i'r cyfarfod ar 23 Medi – ar gyfer sesiwn y bore. (JH)

- Pwynt Gweithredu – Jim Latham i lunio map ar gyfer y cyfarfod nesaf o haenau coetir brodorol er mwyn rhoi canllawiau i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac ati – cynefinoedd blaenoriaeth/ardaloedd rhanbarthol.

- Pwynt Gweithredu – Chris i siarad gyda Stephen Bladwell ynglŷn â'r rhestr adran 42

- Pwynt Gweithredu – cael rhywun o G&R i ddod i'r cyfarfod nesaf

Colli Coetir Hynafol (Rhestr o Goetiroedd Hynafol) a cholli coetir cyffredinol – mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn siarad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – ynglŷn â cholli coetir yn ystod y system gynllunio er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi – Caerdydd ddim yn rhan o CLlLC.

- Pwynt Gweithredu – Colli prysgwydd. A yw'n cael ei gofnodi/sut/ym mhle? A oes diffiniad o brysgwydd?

Beth yw'r mecanwaith ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru? A all Coetiroedd Gwell i Gymru ymdrin â phori?
Gwerthiant coetir, mewn lotiau – materion tirwedd – angen cynnwys pawb sy'n berchen ar goetir os ydym am gael gwared ar rhododendron ac ati. Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn dileu hawl Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac ati i atal perchnogion sy'n gofyn am ganiatâd i godi siediau ac ati ar dir.

- Pwynt Gweithredu – Chris Tucker – Gofyn i Patrick Green ddod i'r cyfarfod nesaf. Angen llunio rhestr o bwyntiau i'w cyflwyno i Goetiroedd Gwell i Gymru yn ymwneud â materion amrywiol, gan gynnwys y canlynol - - Beth fydd yn digwydd ar ôl Coetiroedd Gwell i Gymru
    - Glastir
    - Materion pori
    - Coetir pori
    - Rhwydweithio cynefinoedd
    - Tir parc – cysylltu cynefin coetir.
    - Gweithdai cynlluniau grantiau coetir nawr ac yn y dyfodol yn cynnwys gogwydd bioamrywiaeth?
    - Siarad â Richard Siddons
    - Sut mae Coetiroedd Gwell i Gymru'n cael ei fonitro?

- Pwynt Gweithredu – Chris Tucker – Beth mae Coetiroedd Gwell i Gymru'n ei fonitro?

Nigel Ajax Lewis – wedi bod yng nghyfarfod y Cadeiryddion yn cynrychioli Chris Tucker. Gwaith monitro CCGC. Rhaglen fonitro Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Beth ydych chi'n ei fonitro? Penderfynu beth rydych eisiau ei gyflawni, o ran targedau mae angen i ni weld a yw'r coetiroedd yn dal yno a beth yw eu cyflwr.

- Pwynt Gweithredu – Chris i siarad gyda Chadeiryddion eraill ynglŷn â monitro

- Pwynt Gweithredu – Ym mhle mae gwaith torri coed anghyfreithlon yn cael ei gofnodi? Oes modd ei fapio? – Chris Tucker i siarad gyda Martyn Potton.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am Goetiroedd i Gymru, y Cynllun Gweithredu a'r Dangosyddion, gweld cyflwyniad a fersiynau gwe o'r Cynllun Gweithredu a'r Dangosyddion sydd ar y We erbyn hyn. Dilyn y ddolen gyswllt o www.forestry.co.uk/wales. Trafod cynllun corfforaethol treigl 3 blynedd, bydd y fersiwn wedi'i ddiweddaru ar y We erbyn 12 Mai. Ychwanegu dolen gyswllt.

4. Papur Atal Colli Bioamrywiaeth – trafod y papur a oedd wedi'i ddosbarthu

Paragraff 2 – tynnu o'r testun coch yn hytrach na monitro ac arolygu

Paragraff 3 – Rhestr yn nodi ym mhle y dylai'r 100,000 ha newydd gael ei dargedu a beth ddylai fod yn y coetir newydd.

Rhywogaethau o goed – coetir brodorol cyfuniad 50% – conwydd 50% yna amrywiaeth o goed
Coedwigaeth Gorchudd Di-dor
Angen mwy o fanylion am y cynllun Glastir /Cyfyngiadau dan Glastir
Cymorth i sicrhau bioamrywiaeth
Addysg/budd y cyhoedd – angen iddo fod yn fwy na dal a storio carbon?
Lleoliad, hawl i ddarparu'r holl fanteision, nid ar dir gwael yn unig.
Amddiffyn rhag llifogydd, rheoli dŵr
Gweledigaeth ynglŷn â sut rydym yn cyflawni'n targedau – syniadau allweddol ac enghreifftiau da
Beth yw'r fanyleb/mathau o goetir/targedau – a allwn eu hysgrifennu?

Paragraff 4 – Manteision er mwyn rheoli bioamrywiaeth – Eu rhestru
Ynni adnewyddadwy, bod yn benodol iawn yn ein cynllun gweithredu

5. Rhywogaethau coetir – cytuno / addasu rhestr rhywogaethau adran 42 a chynnwys camau gweithredu ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Grwpio yn ôl cynefin – Colofn newydd i nodi'r themâu / mathau o goetiroedd y mae ar y rhywogaethau hyn eu hangen ar y daflen. Mapiau gofodol?

Blaenoriaethu rhywogaethau – dewis y rhai pwysicaf – beth yw'r meini prawf? Angen diffinio

- Pwynt Gweithredu – Chris Tucker i siarad gyda Stephan Bladwell
- Cysylltu â'r Grŵp Rhywogaethau a thrafod lle maent wedi cyrraedd gyda'u rhestr.

Y rhestr i nodi a yw'r rhywogaeth ar y rhestr a sut i'w rheoli, gyda dolenni cyswllt yn arwain i wefannau perthnasol. Mathau o goetir / blwch croes e.e. os oes gennych goetir derw dyma'r rhywogaethau sy'n debygol o fod yn bresennol ac yna sut i reoli'r coetir ar gyfer y rhywogaeth – lluniau adnabod?

6. Cysylltu â Chynlluniau Gweithredu Grwpiau Ecosystem eraill

Mae CCGC yn edrych ar becyn cymorth arbennig sy'n ymwneud ag ardaloedd blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cyflwr cynnar – haen fapio i bobl ei defnyddio er mwyn adnabod rhywogaethau a chynefinoedd sydd i gael blaenoriaeth o safbwynt gofodol.

Cynefinoedd eraill, rheoli cynefinoedd agored e.e. dolydd corsiog wedi eu colli gan eu bod wedi cael eu hanwybyddu wrth reoli coetiroedd. – Nid yw Coetiroedd Gwell i Gymru'n ymdrin â hyn. Nid oes ffordd hawdd o gadw'r cynefinoedd hyn. Adran 15? – angen siarad gyda Chadeiryddion y grwpiau eraill ynglŷn â hyn.

Chris Tucker - Ucheldir
Sarah Mellor – Rhostir
FCW – Dŵr croyw

Nigel Ajax Lewis – Tir llwyd

7. Cysylltiadau â'r lefel leol – trafodwyd fel rhan o'r pwynt uchod.

8. Diweddaru Cynllun Gweithredu Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Gofyn i bob partner/Parciau Cenedlaethol/Awdurdodau Lleol anfon gwybodaeth yn ymwneud â Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol er mwyn eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

Mae'n bosib y gallai Coed Cymru ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth hon.

Canllawiau cynefinoedd blaenoriaeth

- Pwynt Gweithredu – Chris Tucker – cysylltu â phlâu a chlefydau/ecoleg o wefan Forest Research, cylchlythyr chwarterol?

Y camau nesaf a Dyddiad y cyfarfod nesaf:

23 Medi – 10am – 15.30